

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - L/LG/0758/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

26 Tachwedd 2018

Annwyl Mick

Diben y llythyr hwn yw'ch hysbysu fy mod wedi cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, yn unol â gofyniad Rheol Sefydlog 30A.

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi dod i'r penderfyniad hwn ar sail y ffaith fod ein diddordeb yn yr OS hwn wedi'i gyfyngu i welliannau gweithredol a fydd yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae darpariaeth yr OS yn cynnwys gwelliannau gweithredol mewn perthynas â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ac nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried swm mawr y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl ar yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser pwysig y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod unrhyw aelod yn gallu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr OS hwn, a byddwn yn hapus i gymryd rhan mewn dadl o'r fath.

Cofion

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig